SNMC090

**Harris Eirian (Rh-CTGC)**

---

**From:** Jones Heledd Fflur (Rh-CTGC)
**Sent:** 15 March 2017 13:39
**To:** Harris Eirian (Rh-CTGC)
**Subject:** FW: Sylwadau NMC - Cynllun Datblygu Lleol

---

**From:** Llywelyn Rhys [redacted]
**Sent:** 09 March 2017 17:38
**To:** Jones Heledd Fflur (Rh-CTGC)
**Subject:** Re: Sylwadau NMC - Cynllun Datblygu Lleol

Annwyl Heledd

Diolch am eich neges, rwyf newydd sylweddoli bod y data wedi diflanu o'r ffurflen pdf roeddwn wedi ei arbed a'i anfon! Ni allaf arbed fersiwn newydd rwyf wedi ei lawrlwytho am rhyw reswm.

Bydd rhaid i mi gyflwyno'r sylwadau isod gan geisio dilyn cwestiynau'r ffurflen. Sylwer fy mod gyda dau sylw. Awgrymaf bod y broeses lawrlwytho pdf yn cael ei adolygu yn y dyfodol.

Llywelyn Rhys, [redacted]

1.
NMC **211** cefnogi

2.
Ddim yn gadarn

3.
Nodir yr NMC "Mae pwysigrwydd rol y Cynllun o ran cryfhau tuag at gwrdd ag angen am dai fforddadwy felly yn cael ei gydnabod". Tra croesawir hyn noder fod dim digon o dir y gellir adeiladu tai fforddadwy a fforddadwycanolradd addas i deleuoedd yn ardal Porthmadog oherwydd cyfyngoadau parth llifogydd. Rydym yn berchnog ar dir sydd ar gyrion Porthmadog sydd uwchlaw'r gorlifdir. Os gellir ei gynwys oddi fewn y ffin datblygu gellir ei ddynodi ar gyfer tai fforddadwy 100%. Mae tir gyferbyn yr safle wedi ei ddatblygu ar gyfer diwydiant gan estynuyn ddiweddar i'r Gorllewin er bod y tir yma ar y gorlifdir. Mae'n bwysig dod o hyd i dir addas ar gyfer tai fforddadwy hefyd er mwyn cynal cymdeithas hyfyw.

5.
Rwyf am siarad mewn gwrandawiad

6.
Rwyf am bwysleisio bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gosod dyletswydd ar Cyngor Gwynedd i weithio yn well gyda cymunedau ac i rwystro problemau rhag gwaethygu. Rwyf am ddagnos bod cael tir addas ar gyfer tai fforddadwy a tai fforddadwy canolradd addas i deleuoedd yn ardal Porthmadog yn hanfodol i'r amcan yma.

7.
Cymraeg

1.
NMC **221** cefnogi

2.
Ddim yn gadarn

3.
Nodir "angen lleol am dai fforddadwy na ellir eu cyfarch o fewn amserlen resymol...fel eithriad, caniateir cynigion am gynlluniau 100% tai fforddadwy ar safleoedd sydd yn union gerllaw'r ffiniau datblygu sy'n ffurfio estyniad rhesymol i'r anheddle." Croesawir y datganiad yma ac annogaf Cyngor Gwynedd i'w weithredu yn nghydestyn tai fforddadwy a tai fforddadwy canolradd addas i deleuoedd yn ardal Porthmadog. Oherwydd cyfyngiadau parth yr gorlifdir nid oes digon

o safleoedd i adailadu tai newydd addas o fewn y ffin datblygu presenol. Mae gofyn i gymryd agwedd hyblig felly ac adnabod safleoedd sydd wrth yml y dref ond tu allan i'r ffin datblygu ar hyn o bryd. Cynigir caeau agosaf i'r dref ar tir Moelwyn Dairy sydd uwchben y gorlifdir a cyferbyn a ystad diwydiannol Porthmadog sydd ar y gorlifdir. Buase gwasanaethau a chysylltedd cyfleus gyda dref o'r safle.

Rhai o nodau llesiant sy'n cael eu adnabod yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw Cymru llewyrchus, Cymru o gymunedau cydlynus a Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynu. Nid yw'r CDLl arafaethedig yn cyrraedd y nodau llesiant yna yn nghydestyn cymuned Porthmadog gan nad oes ymdrech i ddatrus problemau tai.

5.
Rwyf am siarad mewn gwrandawiad.

6.
Hoffwn cynnig datrusiad rhannol i broblemau diffyg safleoedd addas i adeiladu tai newydd fforddadwy a canolradd fforddadwy i deleuoedd lleol yn ardal Porthmadog. Rydwyf am ddangos tystiolaeth bod tir , sy'n ddiogel o lifogydd ac yn ymarferol o ran lleoliad, ar gael i'w ddatblygu ar gyfer tai fforddadwy.

7.
Cymraeg

Diolch am dderbyn fy sylwadau yn y modd yma. A fusech gystal a chadarnhau unwaith eto eu bod wedi eich cyrraedd y tro hwn.

Llywelyn Rhys

On Thursday, 9 March 2017, 16:39, Jones Heledd Fflur (Rh-CTGC) <heleddfflurjones2@gwynedd.llyw.cymru> wrote:

Annwyl Mr Rhys,

Diolch am eich sylwadau. Nodir os gwelwch yn dda nad yw'r ffurflenni rydych wedi eu hanfon wedi cael eu llenwi. Os ydych yn cael anhawster gyda llenwi'r ffurflen mae croeso i chi gyflwyno eich sylwadau ar ffurf e-bost.

Gyda diolch

Heledd

Heledd Fflur Jones
Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio / Planning Policy Team Leader
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn / Anglesey and Gwynedd Joint Planning Policy Unit
01286 679 883
HeleddFflurJones2@gwynedd.llyw.cymru

---

**From:** Davies Nia Haf (Rh-CTGC)
**Sent:** 09 March 2017 16:33
**To:** Jones Heledd Fflur (Rh-CTGC); Harris Eirian (Rh-CTGC)
**Subject:** YML/FW: Sylwadau NMC - Cynllun Datblygu Lleol

---

**From:** Lock William Michael (Rh-CTGC) **Ar ran/On Behalf Of** Polisi Cynllunio
**Sent:** 09 March 2017 16:28
**To:** Davies Nia Haf (Rh-CTGC)
**Subject:** FW: Sylwadau NMC - Cynllun Datblygu Lleol

**From:** Llywelyn Rhys [mailto:llew.rhys@btinternet.com]
**Sent:** 09 March 2017 16:23
**To:** Polisi Cynllunio
**Subject:** Sylwadau NMC - Cynllun Datblygu Lleol

Gweler wedi atodi ffurfleni gyda sylwadau am Newidiadau Materion sy'n Codi parthed Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gwynedd.

Byddaf yn ddiolchgar o gael cadarnhad eich bod wedi ei derbyn.

Gyda diolch
Llywelyn Rhys


------------------------------------------------------------

Mae'r e-bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu â'r anfonwr ar unwaith.
Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud â busnes swyddogol y corff sy'n anfon yr e-bost yn bersonol i'r awdur.

------------------------------------------------------------

This email and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact the sender at once.
Any content that is not pertinent to the official business of the organisation is personal to the author.

------------------------------------------------------------

Arbedwch bapur, ynni ac arian - Peidiwch argraffu'r neges yma oni bai ei bod yn hollol angenrheidiol.
Save paper, energy and money - Do not print this message unless it is absolutely necessary.